



Adroddiad Cyfarfod
09:02:22
Yr Orsaf, Penygroes

Cynhaliwyd cyfarfod nos Fercher y 9fed o Chwefror ar zoom. Daeth nifer dda iawn o'r aelodau i wrando ar yr y datblygiadau cyffrous yn yr Orsaf Penygroes.

Daeth Ben Gregory a Gwenllian atom i adrodd ychydig am beth sy'n digwydd ym Mhenygroes. Mae Ben yn aelod Bwrdd Siop Griffiths er ei sylfaenu yn 2016. Yn wreiddiol o Dredegar, symudodd Ben i'r gogledd yn 1998. Mae'n gweithio i Grŵp Cynefin ac yn gwirfoddoli efo llawer o brosiectau ym Mhenygroes, yn cynnwys cefnogi'r clwb drama a'r clwb ffilm.

Un o Aberystwyth yw Gwenllian a hi yw Swyddog Dim Gwastraff Yr Orsaf. Wedi graddio mewn Celf yn Llundain a gweithio dramor am ychydig ymunodd a thim yr Orsaf ym mis Medi 2021. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar dri prosiect sef sefydlu gardd gymunedol ym Mhenygroes, datblygu Rhandiroedd Plas Silyn a rhedeg y Pantri Cymunedol.

Dangosodd Ben luniau yn dangos y datblygiadau o pan gaewyd Siop Griffiths yn 2010, sef un o'r adeiladau hynaf ym Mhenygroes, Mae cofnod bod yr adeilad wedi bod yn dafarn, Y Stag's Head o 1828 tan gyfnod yr Rhyfel Gyntaf. Yn 1925 agorwyd Siop Griffiths fel ironmongers, busnes teuluol am 85 mlynedd.

Yn 2016 prynwyd y siop gan arian gan y gymuned a sefydlwyd Cymdeithas Budd Cymunedol. Yn 2019 prynwyd adeilad arall ar y safle. Erbyn hyn mae Siop Griffiths wedi codi dros filiwn o bunnoedd, ac mae'r arian wedi ei wario i adnewyddu'r adeiladau, agor caffi, llety a chanolfan digidol i blant a phobl ifanc.

Mae 7 yn gweithio i'r orsaf erbyn hyn yn arwain prosiectau amrywiol i gyd er lles y gymuned yn Nyffryn Nantlle. Am fwy o wybodaeth gellir mynd ar wefan Yr Orsaf.

Diolchwyd i Ben a Gwenllian gan y Llywydd Anne Elis am ddangos i ni beth y gellir ei wneud mewn cymuned pan mae pobl lleol yn dangos ymroddiad, gweledigaeth a chydweithio

Estynnwyd croeso cynnes i Glenys atom o Lanharan, mae'n braf iawn ei gweld bob tro, estynnwyd croeso hefyd i Owenna Hughes o Gaernarfon oedd yn ymuno am y tro cyntaf.

Diolch yn fawr i Eirlys Williams a Gwenan Roberts am gytuno i aros yn aelodau ar y Pwyllgor Anabl.

Mae trefniadau'r Bore Coffi sydd i'w gynnal dan nawdd y Loteri Cenedlaethol a Cyngor Gwynedd yn mynd yn dda. Mae'r dyddiad wedi newid i ddydd Gwener 4ydd Mawrth er mwyn i'r ysgol gael amser i baratoi eitemau i ni. Bydd yr aelodau yn cael nodyn i'w dosbarthu i hysbysebu'r bore coffi. Cofiwch mae'n agored i bawb yn y pentref i gael cyfle i ail afael i gyfarfod dros sgwrs a phaned.

Tynnodd Freda ein sylw at y gweithgareddau cenedlaethol mae'r mudiad yn ei gynnig i ni yn ystod y mis yma a hefyd gweithgareddau Diwrnod y Llyfr. Mewn cydweithrediad a Mudiad Meithrin gofynnwyd i ni addurno ein ffenestri ar ddydd Gŵyl Dewi awgrymwyd addurno yn lliwiau'r Urdd i ddathlu penblwydd arbennig y mudiad. Mae angen Golygydd i gylchgrawn Y Wawr , a hefyd is swyddogion Rhanbarth, oes gwyddoch am unrhyw un efo diddordeb gadwech i ni wybod

Ein cyfarfod nesaf fydd y bore coffi yn y neuadd fore Gwener 4ydd o Fawrth rhwng 10.00 a 12.00. Cofiwch ei fod yn agored i'r holl bentref gyda eitemau gan blant yr Ysgol. Os gwyddoch am gymydog fyddai'n mwynhau cymdeithasu dowch a nhw efo chi, bydd aelodau yn paratoi cludiant i unrhyw un sy'n teimlo na allent gerdded i'r neuadd. Bydd Liz yn gyrru gwybodaeth pellach i'r holl aelodau yn ystod y dyddiau nesaf.